# Cofnodion y Bwrdd Wedi'u Cadarnhau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (Busnes)** | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Ionawr 2018 | Lleoliad: | Neuadd Reichel, Campws Prifysgol Bangor<br>Bangor |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Dr Madeleine Havard (Dirprwy-gadeirydd)<br>Syr Paul Williams (Cadeirydd Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth)<br>Nigel Reader<br>Andy Middleton (Cadeirydd Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Howard Davies<br>Zoë Henderson<br>Dr Ruth Hall<br>Chris Blake<br>Karen Balmer (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg)<br>Kevin Ingram (Prif Weithredwr dros dro) | | |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Gareth O'Shea (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De)<br>Catherine Smith (Cyfarwyddwr Gofal Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth)<br>Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)<br>Tim Jones (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd)<br>Niall Reynolds (Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid / Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ) | | |
| **Mynychwyr ychwanegol:** | Euros Jones (Rheolwr Gweithrediadau ar gyfer Gweithrediadau'r Gogledd) ar gyfer eitem 2<br>Mark Hughes (Rheolwr Perfformiad, Llywodraethu) ar gyfer eitem 3<br>Rob Bell (Pennaeth Cyllid, Cyllid Busnes) ar gyfer eitemau 4 a 5<br>Pete Gough (Prif Gynghorydd Pysgodfeydd) ar gyfer eitem 8 | | |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Geri Mills<br>Noemi Donigiewicz | | |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

## 1. Busnes Safonol y Bwrdd

1.Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gadarnhau mai cyfarfod a gynhelir yn gyhoeddus oedd hwn, nid cyfarfod cyhoeddus.

<u>Ymddiheuriadau</u>
**2.** Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl.

<u>Datganiadau o fuddiannau</u>

**3.** Nodwyd y diwygiadau canlynol i'r datganiadau cyfredol gan y Bwrdd:

- Cadarnhaodd Howard C. Davis ei fod yn aelod o Gomisiwn y Byd ar Ardaloedd Gwarchodedig yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN)
- Penodwyd Ruth Hall yn Gyfarwyddwr Anweithredol Addysg Iechyd a Gwella Cymru o 1 Chwefror 2018
- Mae cyfnod Elizabeth Haywood gyda'r Rhwydwaith Cynllunio Strategol ar gyfer Ynni wedi dod i ben.

<u>Cofnodion cyfarfod 20 Medi 2017</u>
4. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cofnodion wedi cael eu hadolygu a'u cadarnhau yn ystod y cyfarfod preifat a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017, a'u bod ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

<u>Adolygiad o'r Cofnod Camau Gweithredu Busnes</u>
Cam gweithredu 1: Cofnod Gweithgareddau Aelodau'r Bwrdd – Yr Ysgrifenyddiaeth i adolygu'r fformat

Cam gweithredu 2: i'w drafod o dan Adrodd ar Berfformiad

Cam gweithredu 3: gweithredwyd a chyflawnwyd yn y cyflwyniad Adrodd ar Berfformiad

Cam gweithredu 4: mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi adolygu'r polisi

Cam gweithredu 5: y prosiect 'Cwch gwenyn'. Ashleigh Dunn/Ceri Davies i gyflwyno papur briffio yn ystod Galwad Diweddaru'r Bwrdd ym mis Chwefror 2018.

Cam gweithredu 6: Ysgrifenyddiaeth i adolygu'r cynllun treuliau a'r templed cyflwyno a’u cyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth i'w hadolygu ar ran bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 2. Gweithrediadau’r Gogledd a’r Canolbarth – Cyflwyniad

5. Cyflwynodd Tim Jones Euros Jones i'r Bwrdd, a roddodd gyflwyniad ynglŷn â'r dull arloesol a ddefnyddiwyd yn yr ardal weithredol i ymateb i'r her o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

6. Roedd y prosiectau a drafodwyd yn cynnwys:

- Dalgylch Conwy Uchaf - y gwaith a wnaed mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol mewn perthynas â stociau eogiaid. Mae'r tîm yn gweithio i wella cynefinoedd yr afon drwy weithio gyda ffermwyr. Mae'r prosiect wedi bod yn mynd rhagddo ers nifer o flynyddoedd, gan arddangos buddion sylweddol a mesuradwy ar gyfer eogiaid a brithyllod.

- Cemaes: mae'r tîm yn gweithio i wella ansawdd y dŵr drwy weithio gyda Phrifysgol Aberystwyth a'r ffermwyr lleol i leihau crynodiad y bacteria yn y dŵr, er mwyn gwella ansawdd y dŵr, sy'n gwaethygu.

- Partneriaeth Tirlun Llŷn: Mae prosiect Llŷn yn defnyddio ymagwedd arloesol tuag at gyllido ar y cyd a rhannu risgiau. Mae'n canolbwyntio ar leoliad gan ddefnyddio blaenoriaethau cenedlaethol, a bydd yn darparu enghraifft ymarferol o Daliadau am Brosiectau Ecosystem. Roedd y fenter benodol a ddangoswyd yn asesiad o'r defnydd o ddeunyddiau o rostir ar gyfer gwelyau, i ymchwilio a yw torri a defnyddio grug ac eithin o dan welyau gwellt yn ddeniadol ac yn ymarferol i ffermwyr ar yr arfordir, gan y byddai'n arbed cost gwellt ac yn gwneud rhostiroedd yn ddefnyddiol ac yn adnodd gwerthfawr ar gyfer y fferm.

7. Nododd y Bwrdd y cyflwyniad rhagorol a llawn gwybodaeth a dynnodd sylw at y canlynol:

- Cipolwg cynhwysfawr iawn sy'n arddangos cyflawni Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy hefyd.

- Llwyddiant y prosiectau a oedd yn ymdrin â brithyllod ac eogiaid.

- Bae Cemaes – cyfleoedd o'r model hwn y gellid eu rhannu ledled Cymru.

- Ffyrdd enghreifftiol o weithio ar gyfer y dyfodol ar waith, gyda chyfle i rannu gwersi a gwybodaeth â chydweithwyr ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gysylltiedig â dulliau yn seiliedig ar leoliad.

8. Gofynnodd y Bwrdd i Euros estyn eu diolch i'r timau lleol am yr arloesedd a'r gwaith rhagorol gyda rhanddeiliaid a ddangoswyd ar draws y tri phrosiect a gyflwynwyd.

***Cam gweithredu: Euros Jones i rannu rhagor o wybodaeth am brosiect y rhostiroedd a'r cyflwyniad llawn ag Aelodau'r Bwrdd.***

## 3. Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad 2017–18: Cyfnod Dau (CNC B B 1.18)

9. Croesawodd y Bwrdd Mark Hughes i'r cyfarfod, a gyflwynodd y papur i alluogi'r Bwrdd i graffu ar yr adroddiad perfformiad ar gyfer Cyfnod 2 o 2017–18, cyn iddo gael ei gymeradwyo a'i anfon i'w nodi gan Lywodraeth Cymru. Nododd y bwrdd y bydd fformat yr adrodd ar berfformiad yn newid yn unol â'r Cynllun Corfforaethol newydd, sy'n mynd drwy'r broses o gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet.

10. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried y canlynol:
- Digonedd pob esboniad ategol ar gyfer pob mesur a'r ffordd rydym yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio sy'n dangos bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy
- Y mesurau lliniaru a'r camau gweithredu a gynigir i fynd i'r afael â risgiau i gyflawni'r gwaith hwn

11. Rhoddodd Kevin Ingram gyflwyniad i'r Bwrdd yn cefnogi'r papur a gyflwynwyd. Nodwyd bod camau gweithredu a mesurau lliniaru yr adroddiad yn cyd-fynd ag archwaeth y Bwrdd am risg.

12. Rhoddodd Kevin Ingram grynodeb o'r cyflawniadau hyd yn hyn, gan nodi
1 mesur coch mewn perthynas â chreu 250 hectar ychwanegol o gynefin
10 o fesurau oren, a nodwyd o fewn atodiad A
22 o fesurau gwyrdd, a nodwyd o fewn atodiad A
Mae 1 mesur targed yn dal i aros i gael ei gadarnhau mewn perthynas ag ymateb i ddigwyddiadau

13. Tynnodd Kevin Ingram sylw at yr heriau a'r llwyddiannau canlynol ar gyfer y cyfnod adrodd wyth mis:

# Cofnodion y Bwrdd wedi’u Cadarnhau

**Lansio Labordy Cyfoeth Naturiol Cymru:** Agorwyd ein cyfleuster newydd sbon ar gyfer dadansoddi gwyddonol ar Gampws Singleton Prifysgol Abertawe yn swyddogol gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Hannah Blythyn AC.

**Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig:** Mae Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig yn safon ardystio annibynnol ar gyfer gwirio'r gwaith o reoli coetiroedd yn gynaliadwy yn y Deyrnas Unedig. Mae adroddiad archwilio annibynnol Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig eleni wedi nodi rhai materion, a byddwn yn rhoi sylw iddynt ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Mae cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu i ymateb i Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig erbyn diwedd mis Chwefror.

**Safleoedd o Ddiddordeb Uchel i'r Cyhoedd:** Rydym yn parhau i ddysgu gwersi o ran ein cyfathrebu ynglŷn â safleoedd sy'n denu llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd, mae'r enghreifftiau yn cynnwys biomas Hazrem a'r Barri, a'r Rhath.

**Llywodraeth Cymru –** Rydym yn adeiladu deialog mwy rhagweithiol gyda chydweithwyr polisïau economaidd o fewn Llywodraeth Cymru.

**Storm Eleanor:** Ni welodd Cymru'r aflonyddwch yr oeddem wedi ei ofni'n wreiddiol gan Storm Eleanor, er gwaethaf cyfuniad o wyntoedd 80 milltir yr awr a llanwau uchel. Derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw eang, yn aml fel y llais arweiniol ledled y DU – gan gyflawni ein cylch gwaith o ran rhybuddio a hysbysu, a lleoli Cyfoeth Naturiol Cymru fel ffynhonnell awdurdodol yn ystod digwyddiadau.

**Dŵr ymdrochi –** Mae Bae Cemaes yn parhau i fod yn her, mae'r traeth wedi methu o ran ansawdd y dŵr ymdrochi, ac rydym yn gweithio gyda'r gymuned leol i fynd i'r afael â hyn, fel y nodir yn y cyflwyniad.

**Cynllun Corfforaethol:** Aeth fersiwn derfynol Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru i 2022 at Lywodraeth Cymru i'w chyflwyno i'r Gweinidog i'w hadolygu a'i chymeradwyo ar 4 Ionawr 2018.

**Sesiynau'r Prif Weithredwr Newydd:** Mae Prif Weithredwr newydd Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi dechrau cwrdd â'r staff, gan dreulio ychydig o amser yng ngogledd Cymru yn ymweld â rhai safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn cwrdd â staff yn ein swyddfa yng Nghlawddnewydd ger Rhuthun.

**Ymgyrch Tîm Cyfoeth Naturiol Cymru:** Dros y Nadolig, rhannodd y tîm Cyfathrebu storïau gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn arddangos natur amrywiol gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cyhoedd.

**Erlyniadau gwastraff:** Adroddodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod erlyniadau diweddar i adennill enillion trosedd wedi arwain at orchymyn atafaeliad o dros £300k. Rhoddwyd dedfryd ohiriedig i'r diffynnydd ac fe'i gwaharddwyd rhag bod yn gyfarwyddwr am bum mlynedd. Roedd yr erlyniad gwreiddiol mewn perthynas â gweithredu heb drwydded a methu â storio gwastraff yn briodol. Ym mis Tachwedd, arweiniodd erlyniad arall mewn perthynas â throseddau gwastraff a dŵr ar raddfa fawr at ddirwyon o gyfanswm o £230k, a rhoddwyd dedfryd ohiriedig i'r diffynnydd – dyma yw'r diweddaraf mewn cyfres o erlyniadau.

**Nantgaredig:** Yn dilyn apêl, mae safle tynnu dŵr mawr Dŵr Cymru yn Nantgaredig bellach wedi cael ei addasu i amddiffyn silio pysgod yn well – canlyniad cryn dipyn o waith gan dimau adnoddau dŵr, ansawdd dŵr a thimau cyfreithiol dros flwyddyn.

13. Rhoddwyd yr adborth canlynol gan y Bwrdd ynglŷn â'r dangosyddion perfformiad:

**Cynnal a chadw Asedau Llifogydd** – yr angen i ddeall y risgiau a wynebir wrth gynnal a chadw Asedau Risg Uchel a fydd yn cael eu monitro'n barhaus gan y Bwrdd.

14. Rhoddodd Gareth O'Shea sicrwydd i'r Bwrdd bod cynlluniau wrth gefn ar waith o amgylch yr asedau y mae angen eu cynnal a'u cadw, a chynigiodd roi cyflwyniad yn ystod cyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol.

***Cam gweithredu: Gareth O'Shea (Jeremy Parr/Richard Kellad) i gyflwyno nodyn briffio y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd i'r Bwrdd llawn, Ysgrifenyddiaeth i nodi'r rhagolwg.***

**Datganiadau Ardal –** Mae'r amserlen wedi newid wrth i ni aros i bolisi Adnoddau Naturiol Cymru Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi.

15. Cadarnhaodd Gareth O'Shea fod gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo'r defnydd o Ddatganiadau Ardal y tu allan i'r sefydliad, a byddai'n rhannu nodyn briffio arall ag Aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth.

***Cam gweithredu Gareth O'Shea i rannu nodyn briffio ag Aelodau'r Bwrdd.***

**Rhaglen Cyfle -**– Tynnodd y Bwrdd sylw at gyfleoedd i ymgysylltu â phartneriaid i gyflawni'r rhaglen Cyfle er mwyn goresgyn heriau o ran adnoddau.

***Cam gweithredu: Bydd Tim Jones yn cyflwyno nodyn briffio ar gyfer galwad diweddaru Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Chwefror***

**Ymgyrch Tîm Cyfoeth Naturiol Cymru –** amlygwyd pryderon ynghylch nifer y targedau staff sydd bellach yn oren ac wedi'u nodi gan Ymgyrch Tîm Cyfoeth Naturiol Cymru.

16. Cadarnhaodd Catherine Love fod hyn wedi cael ei ehangu dros gyfnod y Nadolig i gynnwys cyfathrebiadau mewnol ac allanol a oedd yn tynnu sylw at aelodau staff sy'n gweithio dros gyfnod y Nadolig.

**Ailstocio** – tynnwyd sylw at yr angen i gyflawni'r targed mewn perthynas â phlannu coed ac ailstocio er mwyn gwella gwydnwch ac amddiffyn safleoedd dynodedig.

17. Cadarnhaodd Ceri Davies fod y targed ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn berfformiad. O ganlyniad i afiechyd coed, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwympo mwy o goed nag y cynlluniwyd, wrth hefyd fodloni gofynion y farchnad ar gyfer coed. Roedd y broblem banc tir yn fwy problemus: bydd cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i gau'r bwlch, gyda chymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Esboniodd Tim Jones fod y gwaith plannu coed yn digwydd yn ystod misoedd y gaeaf tra bydd y coed yn cysgu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn treialu plannu mecanyddol, sydd wedi bod yn llwyddiannus ac yn gynhyrchiol hyd yma. Nododd y Bwrdd bwysau o ran adnoddau yn y maes hwn, a byddai angen adlewyrchu hyn o fewn rhaglen y Cynllun Sefydliadol.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** – Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwilio am gyfleoedd i ddarparu a rhannu arbenigedd o'n cyfranogiad at yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

18. Cadarnhaodd Gareth O'Shea fod llawer o waith a chryn ymdrech yn cael eu gwneud gan dimau lleol i weithio gyda chydweithwyr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu gwybodaeth ac arbenigedd.

**Creu Cynefinoedd** – ceisiodd y bwrdd eglurhad ynglŷn â'r 230 hectar, y targed coch, a sut y mae hyn wedi bwydo i mewn i'r Cynllun Busnes, gyda chyfle i greu set fwy cadarn o gamau gweithredu.

19. Cadarnhaodd Ceri Davies fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio dal yr holl waith creu cynefinoedd ychwanegol i fwydo i mewn i'r targed hwn. Mae'r tîm bellach yn gweithio ar ddull llawer mwy holistig gyda mesur meintiol ac ansoddol.

**Dull Comisiynu –** Amlygwyd pryderon gan rai trydydd partïon o ran sut mae hyn yn datblygu. Cytunodd Ceri Davis i roi diweddariad yn ystod Galwad y Bwrdd ym mis Chwefror.

20. Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y drafodaeth a'r esboniad gan y Tîm Gweithredol wedi bod yn adeiladol, gan nodi'r cyfle i Aelodau'r Bwrdd ymweld â safleoedd a swyddfeydd ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn datblygu gwybodaeth ynghylch cyflawni busnes.

### 4. Diweddariad Cyllid (CNC B B 2.18)

21. Ymunodd Rob Bell â'r cyfarfod er mwyn cyflwyno papur i'r Bwrdd, gyda chefnogaeth gan Niall Reynolds.

22. Gofynnwyd i'r Bwrdd graffu ar y sefyllfa ariannol ar gyfer 2017-18 ar 30 Tachwedd 2017, i gymeradwyo'r diwygiad i Gyllideb 2017-18 yn dilyn Adolygiad Chwarter 3 o'r Cyllidebau, ac yn olaf, i nodi'r eitemau a anfonwyd at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf.

23. Cadarnhaodd Karen Balmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd fod y Pwyllgor wedi craffu ar y ffigyrau ac wedi ychwanegu eglurhad ynghylch y ffigwr ar gyfer dyled incwm masnachol a phren, a oedd wedi llithro, gan gadarnhau nad oedd y llithriad yn peri unrhyw bryderon sylweddol.

24. Gofynnodd y Bwrdd a oedd y tîm wedi asesu'r berthynas rhwng y llithriad yn y proffil gwariant ariannol a'r gwaith o gyflawni targedau perfformiad, gan nodi bod y targedau perfformiad ychydig yn is na'r disgwyl.  Rhoddodd Gareth O'Shea sicrwydd i'r Bwrdd bod y mesurau ariannol a pherfformiad, yn ogystal â'r tanwariant, yn cael eu trafod ar lefel cyfarwyddiaeth a lefelau priodol ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru.

25. Cadarnhaodd Niall Reynolds fod y cynlluniau adnoddau Cynllun Sefydliadol yn rhoi cyfle ar gyfer ychydig o gorgynllunio yn seiliedig ar drosiant staff yn y sefydliad. Cadarnhaodd Rob Bell nad oedd y rhesymau dros danwario yn ymwneud â pherfformiad.  Mae cyfleoedd i drosglwyddo'r tanwariant ymlaen yn cael eu trafod â Llywodraeth Cymru.

26. Ceisiodd y Bwrdd ragor o eglurder yn yr atodiad i gefnogi'r tanwariant yn y gyllideb wrth gefn ar gyfer y cyflwyniad nesaf i'r Bwrdd.

27. Cymeradwyodd y Bwrdd y Gyllideb Ddiwygiedig a gynigiwyd.

28. Ceisiodd y Bwrdd ddiweddariad ynglŷn â'r Cynllun Menter a Strategaeth.

***Cam gweithredu: Tim Jones i gyflwyno papur briffio ar gyfer Galwad Diweddaru'r Bwrdd ym mis Chwefror.***

### 5. Ardollau'r Bwrdd Draenio Mewnol 2018/19 (CNC B B 3.18)

29. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried cymeradwyo ardollau arbennig ar gyfer Ardaloedd Draenio Mewnol, yr ardrethi draenio a'r praeseptau ar gyfer 2018–19 a gynigir yn y papur.

30. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cynllun dirprwyo wedi cael ei roi i'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd i'w ystyried, gan groeso diweddariad o gyfarfod y grŵp cynghori a gynhaliwyd ddydd Gwener 12 Ionawr.

31. Cadarnhaodd Madeleine Havard, Cadeirydd y Grŵp Cynghori, fod y grŵp wedi adolygu'r cynigion a gyflwynwyd, ac argymhellwyd bod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu derbyn.  Esboniodd Madeleine fod ymgynghoriad wedi cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid.

32. Ceisiodd y Bwrdd sicrwydd a chadarnhad bod y cynnydd mewn costau yn ddigon i dalu costau'r staff.

33. Nododd y Bwrdd ei bod yn rhaid i bapurau'r dyfodol sy'n cynnwys y cynnydd arfaethedig nodi cyfiawnhad digonol dros y cynnydd mewn taliadau, cadarnhaodd Rob Bell y byddai'r cyngor hwn yn cael ei ystyried os yw'r taliadau yn cynyddu yn ystod blynyddoedd ariannol y dyfodol.

34. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion a'r taliadau fel y'u hamlinellwyd yn y papur a gyflwynwyd.

### 6. Adroddiadau

Papur: Adroddiad y Cadeirydd – CNC B B 4.18
35. Cafodd hwn ei ddosbarthu a'i nodi.

Papur: Gweithgareddau Aelodau'r Bwrdd – CNC B B 6.18

36. Nododd y Bwrdd y gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo i wella'r adroddiadau mewn perthynas â gweithgareddau Aelodau'r Bwrdd.

Papur: Adroddiad y Prif Weithredwr –  CNC B B 7.18

37. Cadarnhaodd Kevin Ingram fod ei gyfnod fel Prif Weithredwr dros dro wedi cynnig cyfle ardderchog iddo,  gan ei gyflwyno i ragor o  weithio gyda rhanddeiliaid ac ardaloedd gweithredol ar draws y busnes.

38. Nododd y Bwrdd y gwaith a wnaed yn datblygu a llofnodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth megis gydag Awdurdod Refeniw Cymru, a cheisiwyd rhestr o'r

holl Femoranda Cyd-ddealltwriaeth a oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru er gwybodaeth.

***Cam gweithredu Dylai dogfen o'r holl Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gael ei datblygu.***

## 7. Cofnodion a materion a godwyd, pwyllgorau, cofnodion a materion a godwyd

39. Croesawodd y Cadeirydd ddiweddariad gan Bwyllgorau'r Bwrdd

- **Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth – Paul Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth**

40. Cadarnhaodd y Bwrdd Gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Medi 2017 yn ffurfiol, a derbyniwyd diweddariad ar lafar o fis Rhagfyr 2017, gan nodi'r eitemau canlynol a drafodwyd:

    - Adolygu'r Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch (Papur – CNC B B 7.18)
- Cyflwyniad diweddaru ynglŷn â'r Cynllun Sefydliadol gan Niall Reynolds
- Cydnabod staff – ystyriwyd y cynnig, rhoddwyd adborth gan y Pwyllgor o ran datblygu pellach
- Gwerthuso Swyddi - mae'r Bwrdd yn ymwybodol yn dilyn y galwad diweddaru
- Diweddariad ar hawliadau atebolrwydd cyflogwyr
- Bydd arolwg staff yn cael ei lansio ar 25 Ionawr 2018

41. Nododd y Bwrdd fod y papur Adolygu Iechyd a Diogelwch Coedwigaeth wedi cael ei gynnwys, gan gadarnhau y byddai'r Bwrdd yn cael briff gan Peter Garson yn ystod Cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

***Cam gweithredu : Yr ysgrifenyddiaeth i nodi'r cyflwyniad Rhagolwg ynghylch Iechyd a Diogelwch Coedwigaeth ar gyfer Cyfarfod Busnes y Bwrdd ym mis Mawrth.***

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – Karen Balmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

42. Cadarnhaodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf yn ffurfiol, a derbyniwyd diweddariad ar lafar o gyfarfod 8 Rhagfyr 2017, gan nodi'r eitemau canlynol a drafodwyd:

- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017–18 – mae'n debygol y bydd y rhain yn derbyn barn amodol ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, wrth i'r contractau coedwigaeth a oedd wedi arwain at yr amodi yn y blynyddoedd blaenorol, er eu bod yn dechrau dod i ben, yn parhau i fod yn weithredol ac yn berthnasol yn ystod y flwyddyn.
- Disgwylir i Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gyrff Hyd Braich ddod i ben ddiwedd mis Ionawr gyda diffiniad o newydd, cynhennus ac â sgil-effeithiau
- Ystyriodd y pwyllgor Adroddiadau Archwilio'r Rhyngrwyd
- Adolygwyd statws rhaglen y Cynllun Sefydliadol a'r gwaith o weithredu'r broses Gwerthuso Swyddi
- Seiberddiogelwch.
- Daeth Adolygiad TAW Cyllid y Wlad i ben heb lawer o drafferthion
- Parodrwydd ar gyfer Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ar gyfer mis Mai 2018
- Trafodwyd yr adolygiad o'r polisi Chwythu'r Chwiban a nodwyd camau gweithredu er mwyn cynnig aelod Bwrdd a enwir ar gyfer cysylltu â staff mewn perthynas â materion nad ydynt yn ariannol

43. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i Madeleine Havard am gyflenwi yn absenoldeb Ruth Hall.

44. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod cyfarfod briffio ar gyfer aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael ei drefnu ar hyn o bryd er mwyn trafod Adroddiad Archwilio Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig. Nododd y Cadeirydd effaith hanfodol adroddiad Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig o ran peri risgiau uchel i Cyfoeth Naturiol Cymru. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredol ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog gyda chyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 30 Ionawr 2018.

- Grŵp Cynghori Rheoli Perygl Llifogydd – Madeleine Havard, Cadeirydd

45. Cadarnhaodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd yn ffurfiol, gan nodi'r cofnodion o fis Gorffennaf a gyflwynwyd, a derbyn diweddariad ar lafar o 12 Ionawr 2018, a nodwyd yr eitemau canlynol a drafodwyd:
    - Y rhaglen gwaith cyfalaf
    - Gwariant y rhaglen Cynllun Lliniaru Llifogydd.
    - Gostyngiadau cyllideb - mae effaith gostyngiadau cyllideb ar raglenni cynnal a chadw yn allweddol. Mae cynnal a chadw asedau yn effeithiol yn sicrhau eu bod mewn cyflwr da a bod y lefel o amddiffyniad ar gyfer prosiectau cyfalaf a gyflawnwyd yn parhau.

46. Nododd y Bwrdd y cyflwyniad a roddwyd i'r Grŵp Cynghori ynglŷn â Phrosiect Cynllun Llifogydd y Rhath, bydd Gareth O'Shea yn rhannu â'r Bwrdd yn ystod y Cyfarfod Diweddaru ym mis Chwefror.

47. Tynnodd y Bwrdd sylw at y dewisiadau o ran asedau llifogydd naturiol a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw. Cadarnhaodd Gareth O'Shea y gallai roi briff i'r Bwrdd o ran prosiect peirianneg feddal yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn rhan ohono.

***Cam gweithredu : Gareth O'Shea i rannu gwybodaeth peirianneg feddal ag Aelodau'r Bwrdd.***

48. Llongyfarchodd Madeleine Havard Rob Heather, aelod o Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru blaenorol, am gael ei gynnwys ar restr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am waith a wnaed mewn perthynas â lliniaru a rheoli llifogydd.

- **Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – Cadeirydd Andy Middleton**

49. Cadarnhaodd Andy Middleton fod safle wedi cael ei gadarnhau i'w ddynodi yn ystod y cyfarfod ar 1 Rhagfyr 2017.

50. Tynnodd Andy Middleton sylw at yr angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried ei reolaeth dros safleoedd dynodedig, gan ofyn am drafodaeth bellach gydag aelodau'r Tîm Gweithredol er mwyn pennu prosiect a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

***Cam gweithredu*** : ***Ceri Davies i drafod a chytuno ar y ffordd ymlaen gydag Andy Middleton mewn perthynas â rheoli safleoedd dynodedig cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.***

- **Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus – Diweddariad gan Gadeirydd yr Is-grŵp, Howard C.Davies**

51. Nododd y Bwrdd y gwaith parhaus o ran adolygu'r cynlluniau drafft gan gyrff cyhoeddus ledled Cymru a phresenoldeb Howard C. Davis yn ystod cyfarfodydd ymarferwyr Cyfoeth Naturiol Cymru. Nododd y Bwrdd y llythyr drafft a oedd yn cael ei ddatblygu gan Ceri Davies i'w gyflwyno i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran y broses adborth a ddilynir gan Gyrff Cyhoeddus a sut yr ymdrinnir â hyn.

- **Diweddariad y Cynllun Taliadau 2018–19 gan yr Is-grŵp**

52. Ceisiodd Nigel Reader, Cadeirydd yr Is-grŵp, ddirprwyaeth gan y Bwrdd ar gyfer Cadeirydd yr Is-grŵp, ceisiodd ddirprwyaeth gan y Bwrdd i'r Is-grŵp

gymeradwyo'r cynigion taliadau ar gyfer 2018–19, pe bai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gofyn am hynny.

- **Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur – Diweddariad gan Madeleine Havard**

53. Cyfle cadarnhaol a deniadol i bawb gwrdd yng Nghaerdydd ar gyfer cyfarfod ar y cyd y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru ar 29 Tachwedd. Roedd y cyfarfod yn ddefnyddiol iawn ac yn ymwneud â thargedau bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2025, Brexit, a materion eraill.

54. Mae Madeleine Havard yn gobeithio mynychu Cynhadledd Cymdeithas Ecolegol Prydain ym Manceinion ym mis Mai. Bydd cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur yn cael ei gynnal ym mis Mawrth yng Nghaeredin.

55. Gofynnodd y Bwrdd am eitem agenda sefydlog ar gyfer diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru gan Zoe Henderson, sef ei Gadeirydd.

***Cam gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i nodi diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru fel eitem sefydlog.***

## 8. Dulliau newydd ar gyfer rheoli pysgota am eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru: cais arfaethedig i Lywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwyd newydd (CNC B B 8.18)

56. Ymunodd Pete Gough â'r cyfarfod i roi cyflwyniad trosolwg i'r Bwrdd, a cheisiodd gymeradwyaeth ar gyfer yr argymhellion a nodir o fewn y papur.

57. Diolchodd y Cadeirydd i Ceri Davies a Pete Gough am y cyflwyniad, gan nodi'r ddyletswydd statudol ar Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nododd y Bwrdd y pryderon cryf a fynegwyd gan randdeiliaid drwy ohebiaeth e-byst a gyflwynwyd cyn cyfarfod y Bwrdd. Roedd yr holl ohebiaeth wedi cael ei rhannu â holl aelodau'r Bwrdd.

58. Tynnodd Pete Gough sylw at y canlynol yn ystod y cyflwyniad:

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aros am benderfyniad Asiantaeth yr Amgylchedd o ran materion trawsffiniol mewn perthynas ag Afon Hafren
- Mae'r achos dros newid yn cael ei ysgogi gan stociau sydd wedi gostwng ac asesiadau ehangach
- Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ym mis Tachwedd 2017, ac mae'r canlyniadau o fewn yr atodiad
- Nododd sawl pwynt dysgu o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- Nododd ddiwygiadau i'r cynigion gwreiddiol, mewn ymateb i'r sylwadau a'r cyngor a dderbyniwyd, gan gynnwys y math o fachyn ar lithiau a phlu, y defnydd tymhorol o ferdys fel abwyd, a diwedd cynnar arfaethedig ar gyfer dal a rhyddhau ar Afon Wysg
- Y broses dwy flynedd a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yr ystyriwyd ei bod yn rhy hir ac angen ei gwella
- Yr angen i wella gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid er mwyn adeiladu ffydd
- Yr angen clir a phwysig i gymryd camau gweithredu i amddiffyn stociau nad ydynt yn gynaliadwy
- Mae arferion dal a rhyddhau presennol yn dda ond mae angen eu gwella
- Mae bron yr holl stociau eogiaid yn dirywio'n barhaus, ond mae hyn o ganlyniad i gasgliad cymhleth o resymau

59. Nododd y Cadeirydd y cyflwyniad ar ran y Bwrdd, a nododd y materion ehangach a fydd yn derbyn sylw mewn perthynas ag adfer cynefinoedd a llygredd mewn afonydd.

60. Trafododd aelodau'r Bwrdd yr argymhellion a gyflwynwyd yn fanwl, gan gynnwys cynnig estyn y cynllun dal a rhyddhau sy'n wirfoddol yn bennaf ar hyn o bryd am 12 mis arall, wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y gymuned genweirio a ffermwyr i wella ansawdd dŵr trwy leihau llygredd mewn dalgylchoedd.

61. Nodwyd y canlynol gan aelodau'r Bwrdd:
  - pwysigrwydd hanfodol gwella ansawdd y dŵr mewn afonydd
  - yr angen i ddatblygu strategaeth adfer afonydd Cymru gyfan
  - yr angen am weledigaeth fwy hirdymor sy'n canfod tir cyffredin a strategaeth ehangach
  - yr angen i wella ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol, gan weithredu dull cydweithredol o ran cynyddu lefelau stociau pysgod
  - yr angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu, cynnal a chadw, a chyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
  - cyflawni ymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
  - yr angen i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn glir o ran sut y bydd gorfodi yn cael ei weithredu ar gyfer y dal a rhyddhau gorfodol arfaethedig o bysgod a'r ddyletswydd bwysig i ddatblygu a chynnal stociau pysgod.

62. Cadarnhaodd y Tîm Gweithredol ei adolygiad a'i gefnogaeth ar gyfer yr argymhellion a gyflwynwyd.

63. I gloi, ar ôl llawer o drafod, rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gadarnhad o'r is-ddeddfau newydd arfaethedig

(diwygiedig) ar gyfer pysgota â gwialen a rhwyd ar gyfer eogiaid a brithyllod môr yng Nghymru yn unol â'r cynnig sydd wedi'i gynnwys yn y papur.

64. Hefyd, gofynnodd y Bwrdd am waith pellach i ddatblygu perthnasau â rhanddeiliaid allweddol a datblygu cynlluniau adfer afonydd.

***Cam gweithredu : Ceri Davies i ddatblygu Cynlluniau Adfer Afonydd, a darparu diweddariad ar gyfer Galwad Diweddaru'r Bwrdd ym mis Chwefror, a chynnwys y rhain ar y Rhagolwg fel eitem sylweddol i'w hadolygu gan y Bwrdd.***

65. Daeth y cyfarfod i ben.

## 8. Cau'r cyfarfod
## Fforwm cyhoeddus(15 munud)

66. Rhoddwyd cyfle ar gyfer cwestiynau ac atebion, yn ogystal â rhoi adborth, i aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

Cwestiynau gan y Cyhoedd – (Crynodeb yn unig)

1. Roger Cooper – cadarnhaodd ei fod wedi cyflwyno cwestiynau i'r Ysgrifenyddiaeth ac wedi manteisio ar y cyfle i drafod â'r Tîm Gweithredol yn ystod yr egwyl ginio.
2. Richard Thomas – tynnodd sylw y Bwrdd at bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r angen i Cyfoeth Naturiol Cymru nodi'r materion ehangach sy'n effeithio ar stociau pysgod yng Nghymru.
3. Chris White – Nododd y Bwrdd y sylw bod 18 mlynedd o ddal a rhyddhau wedi gweld newid bach o ran stociau pysgod, bydd rhai genweirwyr yn parhau i ddal â chadw pysgod.
4. Reuben Woodford – Cyhoeddodd ei siom â'r penderfyniad a wnaed.
5. Steve Marsh-Smith – Cyfeiriodd at gwestiynau a gyflwynwyd i'r Ysgrifenyddiaeth mewn perthynas â chwistrellu, Busnes i gydlynu ymateb.
6. Richard Garner-Williams – Ceisiodd sicrwydd gan y Bwrdd ynglŷn â'r gwaith dilynol o ran yr argymhellion a wnaed, gan gynnwys y cynlluniau adfer afonydd.